

Hysbysiad o Gynnig

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(FFORDD GLYNDWR, FFORDD OWEN A FFORDD EDWIN, LLANEURGAIN)
(TRAFFIG UNFFORDD) 20-**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn am ei fwriad i wneud Gorchymyn dan Adrannau 1(1) a 2 (1) a (2) Traffig Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd:

Gwahardd unrhyw gerbyd, heblaw Beiciau rhag defnyddio'r darnau o ffyrdd a nodir yng Ngholofn 1 i Atodlen yr Hysbysiad hwn ac eithrio i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darnau o ffyrdd yng Ngholofn 2 i'r Atodlen honno.

Er diogelwch yn ystod y Pandemig COVID-19, os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros cynnig y Gorchymynion, cyngorior eich bod yn eu darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk <<http://www.siryfflint.gov.uk>> > Preswyl >Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymynion Rheoleiddio Traffig. Fel arall, gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk. Gallwch hefyd eu gweld yn canolfan cysylltiad fflint, Stryd yr Eglwys Fflint CH6 5BD.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r rhesymau dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener 2 Hydref 2020 gan ddyfynnu cyfeirnod rhif SS/TRO/JB/NORTHOP

ATODLEN

Colofn 1 <u>Enw'r Ffordd</u>	Colofn 2 <u>Cyfeiriad a Ganiateir</u>
Ffordd Glyndwr, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Edwin, i'w chyffordd â Ffordd Owen.	Gogledd Orllewinol
Ffordd Owen, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Glyndwr, i'w chyffordd â Ffordd Edwin.	Gogledd Ddwyreiniol
Ffordd Edwin, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Owen, i'w chyffordd â Ffordd Glyndwr.	I'r de



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF.
Dyddiedig yr 11 diwrnod o Medi 2020

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(FFORDD GLYNDWR, FFORDD OWEN A FFORDD EDWIN,
LLANEURGAIN)
(TRAFFIG UNFFORDD) 20-**

**Stephen O Jones,
Prif Swyddog
(Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF.**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(FFORDD GLYNDWR, FFORDD OWEN A FFORDD EDWIN, LLANEURGAIN)
(TRAFFIG UNFFORDD) 20-**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1) a 2 (1) a (2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984") a phob pŵer arall sy'n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn

2. Ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio dan gyfarwyddyd neu drwy dderbyn caniatâd Cwnstabl mewn Lifrai achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio beiciau, i ddefnyddio'r darnau o ffyrdd a nodir yng ngholofn 1 Atodlen y Gorchymyn hwn ac eithrio i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darnau hynny o ffyrdd yng Ngholofn 2 yr Atodlen.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n berthnasol dan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid ydynt yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint (Ffordd Glyndwr, Ffordd Owen a Ffordd Edwin, Llaneurgain (Traffig Unffordd) 20-.

ATODLEN

Colofn 1 Enw'r Ffordd	Colofn 2 Cyfeiriad a Ganiateir
Ffordd Glyndwr, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Edwin, i'w chyffordd â Ffordd Owen.	Gogledd Orllewinol
Ffordd Owen, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Glyndwr, i'w chyffordd â Ffordd Edwin.	Gogledd Ddwyreiniol
Ffordd Edwin, Llaneurgain – O'i chyffordd â Ffordd Owen, i'w chyffordd â Ffordd Glyndwr.	I'r de

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)

CYNGOR SIR Y FFLINT)

yn y fan hon)

ar y xx diwrnod hwn o xxxxxxxxxxxx 20--)

ym mhresenoldeb:-)

Y CADEIRYDD

RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(FFORDD GLYNDWR, FFORDD OWEN A FFORDD EDWIN,
LLANEURGAIN)
GORCHYMYN (TRAFFIG UNFFORDD) 20-**

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Cynigir cyflwyno system Unffordd ar Ffordd Glyndwr, Ffordd Owen a Ffordd Edwin, Llaneurgain, a fydd yn gwella diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr ffordd diamddiffyn, tra'n lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig Ysgol Owen Jones. Bydd lleihau'r tagfeydd o fudd i ddiogelwch y plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn ôl adref a bydd hefyd yn gwella ansawdd yr aer ac ansawdd bywyd trigolion lleol.


Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig y 11 diwrnod o Medi 2020



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF



KEY

- Existing School Keep Clear Zig Zag markings
- Existing Layby
- Existing Double yellow lines
- Proposed Double yellow lines (No Waiting At Any Time)
- Proposed One Way and direction of travel



Steve Jones
 Chief Officer (Streetscene and Transportation).
 Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
 © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
 Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY:
JB

CHECKED BY:
CP

SCALE:
1:1250 @ A3

NAT. GRID REF:
SJ2468

PRELIMINARY	APPROVAL	CONSTRUCTION
AMENDMENTS:		DATE

Ffordd Owen, Ffordd Glyndwr, Ffordd Gwynedd and Ffordd Edwin, Northop

Proposed One Way and Waiting restrictions

DRAWING NUMBER **SS/PS/18-19 101 P1**